OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

2018 Rhif 981 (Cy. 201)

Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

Gorchymyn Addysg a Gwella Iechyd Cymru (Trosglwyddo Staff, Eiddo, Rhwymedigaethau) (Cymru) 2018

2018 No. 981 (W. 201)

NATIONAL HEALTH SERVICE, WALES

The Health Education and Improvement Wales (Transfer of Staff, Property, Liabilities) (Wales) Order 2018

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)

Mae Awdurdod Iechyd Arbennig, Addysg a Gwella Iechyd Cymru ("AaGIC"), wedi cael ei sefydlu o dan adran 22 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006. Mae prif swyddogaethau AaGIC yn ymwneud â chynllunio, comisiynu a chyflenwi addysg a hyfforddiant ar gyfer personau sy'n gyflogedig, neu sy'n ystyried dod yn gyflogedig, mewn gweithgaredd sy'n ymwneud â'r gwasanaeth iechyd yng Nghymru. Mae nifer o'r swyddogaethau hyn yn cael eu cyflawni ar hyn o bryd gan Wasanaeth y Gweithlu, Addysg a Datblygu yn Ymddiriedolaeth GIG Felindre.

Mae'r Gorchymyn hwn yn gwneud darpariaeth ar gyfer trosglwyddo staff (erthygl 3) ac eiddo, hawliau a rhwymedigaethau (erthygl 4) o Ymddiriedolaeth GIG Felindre i AaGIC.

Mae erthygl 5 yn gwneud darpariaeth ar gyfer trosglwyddo data, cofnodion a gwybodaeth.

Mae erthygl 6 yn gwneud darpariaeth ar gyfer parhad pethau a wneir gan neu mewn perthynas ag Ymddiriedolaeth GIG Felindre.

EXPLANATORY NOTE

(This note is not part of the Order)

A Special Health Authority, Health Education and Improvement Wales ("HEIW") has been established under section 22 of the National Health Service (Wales) Act 2006. HEIW's principal functions relate to the planning, commissioning and delivery of education and training for persons who are employed, or are considering becoming employed, in an activity relating to the health service in Wales. A number of these functions are currently carried out by the Workforce, Education and Development Service in Velindre NHS Trust.

This Order makes provision for the transfer of staff (article 3) and property, rights and liabilities (article 4) from Velindre NHS Trust to HEIW.

Article 5 makes provision for the transfer of data, records and information.

Article 6 makes provision for the continuity of things done by, or in relation to, Velindre NHS Trust.

2018 Rhif 981 (Cy. 201)

Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

Gorchymyn Addysg a Gwella Iechyd Cymru (Trosglwyddo Staff, Eiddo, Rhwymedigaethau) (Cymru) 2018

Gwnaed *6 Medi 2018*

Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru *7 Medi 2018*

Yn dod i rym *1 Hydref 2018*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 22(1) a (4) a 203(2), (9) a (10) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006(**1**) ac ar ôl ymgynghori yn unol ag adran 22(7) o'r Ddeddf honno.

Enwi a chychwyn

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Addysg a Gwella Iechyd Cymru (Trosglwyddo Staff, Eiddo, Rhwymedigaethau) (Cymru) 2018.

(2) Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 1 Hydref 2018.

Dehongli

2. Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "AaGIC" ("*HEIW*") yw Addysg a Gwella Iechyd Cymru a sefydlwyd gan erthygl 2 o Orchymyn Addysg a Gwella Iechyd Cymru (Sefydlu a Chyfansoddiad) 2017(**2**);

ystyr "y dyddiad trosglwyddo" ("*the transfer date*") yw 1 Hydref 2018;

(**1**) 2006 p. 42.
(**2**) O.S. 2017/913 (Cy. 224).

2018 No. 981 (W. 201)

NATIONAL HEALTH SERVICE, WALES

The Health Education and Improvement Wales (Transfer of Staff, Property, Liabilities) (Wales) Order 2018

Made *6 September 2018*

Laid before the National Assembly for Wales *7 September 2018*

Coming into force *1 October 2018*

The Welsh Ministers make the following Order in exercise of the powers conferred on them by sections 22(1) and (4) and 203(2), (9) and (10) of the National Health Service (Wales) Act 2006(**1**) and after consultation in accordance with section 22(7) of that Act.

Title and commencement

1.—(1) The title of this Order is the Health Education and Improvement Wales (Transfer of Staff, Property, Liabilities) (Wales) Order 2018.

(2) This Order comes into force on 1 October 2018.

Interpretation

2. In this Order—

"the Act" ("*y Ddeddf*") means the National Health Service (Wales) Act 2006*;*

"HEIW" ("*AaGIC*") means Health Education Improvement Wales established by article 2 of the Health Education and Improvement Wales (Establishment and Constitution) Order 2017(**2**);

(**1**) 2006 c. 42.
(**2**) S.I. 2017/913 (W. 224).

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006;

ystyr "GGAD" ("*WEDS*") yw Gwasanaeth y Gweithlu, Addysg a Datblygu yn Ymddiriedolaeth GIG Felindre;

ystyr "swyddogaethau AaGIC" ("*HEIW's functions*") yw'r swyddogaethau a nodir yn erthygl 3 o Orchymyn Addysg a Gwella Iechyd Cymru (Sefydlu a Chyfansoddiad) 2017;

ystyr "Ymddiriedolaeth GIG Felindre" ("*Velindre NHS Trust*") yw'r Ymddiriedolaeth GIG a sefydlwyd gan Orchymyn Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Felindre (Sefydlu) 1993(**1**).

"HEIW's functions" ("*swyddogaethau AaGIC*") means the functions set out in article 3 of the Health Education and Improvement Wales (Establishment and Constitution) Order 2017;

"the transfer date" ("*y dyddiad trosglwyddo*") means 1 October 2018;

"Velindre NHS Trust" ("*Ymddiriedolaeth GIG Felindre*") means the NHS Trust established by the Velindre National Health Service Trust (Establishment) Order 1993(**1**);

"WEDS" ("*GGAD*") means the Workforce, Education and Development Service in Velindre NHS Trust.

Trosglwyddo staff i AaGIC

3.—(1) Mae'r erthygl hon yn gymwys i unrhyw berson—

(a) sydd wedi ei gyflogi gan Ymddiriedolaeth GIG Felindre yn union cyn y dyddiad trosglwyddo mewn cysylltiad â swyddogaethau GGAD; a

(b) sydd wedi cael ei hysbysu'n ysgrifenedig gan ei gyflogwr cyn y dyddiad trosglwyddo ei fod i'w drosglwyddo i AaGIC.

(2) Mae contract cyflogaeth unrhyw berson y mae paragraff (1) yn gymwys iddo, ar y dyddiad trosglwyddo, i'w drosglwyddo i AaGIC.

(3) O ran contract cyflogaeth person y mae ei gyflogaeth wedi ei throsglwyddo i AaGIC o dan baragraff (2)—

(a) nid yw'r trosglwyddiad yn ei derfynu; a

(b) mae'n cael effaith o'r dyddiad trosglwyddo fel pe bai wedi ei wneud yn wreiddiol rhwng y person hwnnw ac AaGIC.

(4) Heb ragfarnu paragraff (3)—

(a) mae holl hawliau, pwerau, dyletswyddau a rhwymedigaethau Ymddiriedolaeth GIG Felindre o dan gontract cyflogaeth unrhyw berson y trosglwyddwyd ei gyflogaeth i AaGIC ar y dyddiad trosglwyddo o dan baragraff (2), neu mewn cysylltiad â'r contract hwnnw, i'w trosglwyddo i AaGIC; a

Transfer of staff to HEIW

3.—(1) This article applies to any person who—

(a) immediately before the transfer date is employed by Velindre NHS Trust in connection with the functions of WEDS; and

(b) has been notified in writing by their employer prior to the transfer date that they are to be transferred to HEIW.

(2) The contract of employment of any person to whom paragraph (1) applies is, on the transfer date, to be transferred to HEIW.

(3) The contract of employment of a person whose employment has transferred to HEIW under paragraph (2)—

(a) is not terminated by the transfer; and

(b) has effect from the transfer date as if originally made between that person and HEIW.

(4) Without prejudice to paragraph (3)—

(a) all the rights, powers, duties and liabilities of Velindre NHS Trust under, or in connection with, the contract of employment of any person whose employment transferred to HEIW on the transfer date under paragraph (2), are to transfer to HEIW; and

(**1**) O.S. 1993/2838 fel y'i diwygiwyd gan O.S. 1999/826; O.S. 2002/442 (Cy. 57); O.S. 2002/2199 (Cy. 219); O.S. 2009/2059 (Cy. 178); O.S. 2012/1262 (Cy. 157); O.S. 2017/912 (Cy. 223) ac O.S. 2018/887 (Cy. 176).

(**1**) S.I. 1993/2838 as amended by S.I. 1999/826; S.I. 2002/442 (W. 57); S.I. 2002/2199 (W. 219); S.I. 2009/2059 (W. 178); S.I. 2012/1262 (W. 157); S.I. 2017/912 (W. 223) and S.I. 2018/887 (W. 176).

(b) bernir bod unrhyw weithred neu anweithred cyn y dyddiad trosglwyddo gan Ymddiriedolaeth GIG Felindre neu mewn perthynas â hi, mewn cysylltiad â'r person hwnnw neu gontract cyflogaeth y person hwnnw, yn weithred neu anweithred gan AaGIC neu mewn perthynas ag ef.

(5) Nid yw paragraffau (2) i (4) yn cael effaith i drosglwyddo contract cyflogaeth person y mae paragraff (1) yn gymwys iddo, neu unrhyw hawliau, pwerau, dyletswyddau a rhwymedigaethau o dan y contract hwnnw neu mewn cysylltiad ag ef, os yw'r person hwnnw, cyn y dyddiad trosglwyddo, yn rhoi gwybod i Ymddiriedolaeth GIG Felindre ei fod yn gwrthwynebu dod yn gyflogedig gan AaGIC.

(6) Pan fo person y mae paragraff (1) yn gymwys iddo wedi gwrthwynebu trosglwyddo ei gontract cyflogaeth i AaGIC fel y'i disgrifir ym mharagraff (5), mae'r trosglwyddiad yn gweithredu er mwyn terfynu contract cyflogaeth y person hwnnw ag Ymddiriedolaeth GIG Felindre.

(7) Yn ddarostyngedig i baragraff (8), nid yw person y mae ei gontract cyflogaeth yn cael ei derfynu yn unol â pharagraff (6) i'w drin, at unrhyw ddiben, fel pe bai wedi cael ei ddiswyddo gan ei gyflogwr.

(8) Pan fo'r trosglwyddiad yn golygu, neu pan fyddai'n golygu, newid sylweddol yn yr amodau gwaith gan arwain at niwed sylweddol i berson y mae ei gyflogaeth yn cael ei throsglwyddo neu y byddai ei gyflogaeth wedi cael ei throsglwyddo o dan baragraff (2), caiff y person hwnnw drin y contract cyflogaeth fel pe bai wedi cael ei derfynu, ac mae'r person hwnnw i'w drin at unrhyw ddiben fel pe bai wedi cael ei ddiswyddo gan ei gyflogwr.

(9) Nid yw unrhyw iawndal i fod yn daladwy gan gyflogwr o ganlyniad i ddiswyddo sy'n dod o fewn paragraff (8) mewn cysylltiad ag unrhyw fethiant gan y cyflogwr i dalu cyflog i berson mewn cysylltiad â chyfnod rhybudd y mae'r person wedi methu â'i weithio.

(10) Nid yw paragraffau (2), (3), a (5) i (8) yn rhagfarnu unrhyw hawl sydd gan berson sy'n codi ar wahân i'r erthygl hon i derfynu contract cyflogaeth y person hwnnw heb rybudd wrth dderbyn tor contract ymwrthodol gan y cyflogwr.

(11) Mae cofnodion Ymddiriedolaeth GIG Felindre sy'n ymwneud â chyflogaeth y personau hynny y mae paragraff (1) yn gymwys iddynt ac y mae eu contractau cyflogaeth i'w trosglwyddo i AaGIC yn unol â'r erthygl hon i'w trosglwyddo i AaGIC ar y dyddiad trosglwyddo.

(b) any act or omission before the transfer date by, or in relation to, Velindre NHS Trust, in respect of that person or that person's contract of employment, is deemed to have been an act or omission of, or in relation to, HEIW.

(5) Paragraphs (2) to (4) do not have effect to transfer the contract of employment of a person to whom paragraph (1) applies, or any rights, powers, duties and liabilities under, or in connection with, that contract, if, before the transfer date, that person informs Velindre NHS Trust that they object to becoming employed by HEIW.

(6) Where a person to whom paragraph (1) applies has objected to the transfer of that person's contract of employment to HEIW as described in paragraph (5), the transfer operates so as to terminate that person's contract of employment with Velindre NHS Trust.

(7) Subject to paragraph (8), a person whose contract of employment is terminated in accordance with paragraph (6) is not to be treated, for any purpose, as having been dismissed by their employer.

(8) Where the transfer involves or would involve a substantial change in the working conditions to the material detriment of a person whose employment is or would have been transferred under paragraph (2), that person may treat the contract of employment as having been terminated, and that person is to be treated for any purpose as having been dismissed by their employer.

(9) No damages are to be payable by an employer as a result of a dismissal falling within paragraph (8) in respect of any failure by the employer to pay wages to a person in respect of a notice period which the person has failed to work.

(10) Paragraphs (2), (3), and (5) to (8) are without prejudice to any right of a person arising apart from this article to terminate that person's contract of employment without notice in acceptance of a repudiatory breach of contract by the employer.

(11) Records of Velindre NHS Trust relating to the employment of those persons to whom paragraph (1) applies whose contracts of employment are to transfer to HEIW pursuant to this article are to transfer to HEIW on the transfer date.

Trosglwyddo eiddo a rhwymedigaethau

4.—(1) Mae unrhyw eiddo neu dir a ddelir gan Ymddiriedolaeth GIG Felindre yn union cyn y dyddiad trosglwyddo ac a nodir yn yr Atodlen i'w trosglwyddo, ar y dyddiad trosglwyddo, i AaGIC.

(2) Gydag effaith o'r dyddiad trosglwyddo ymlaen, bydd y cynnwys yn neu ar yr eiddo neu'r tir a nodir yn yr Atodlen a'r holl eiddo, hawliau a rhwymedigaethau a chofnodion eraill sy'n ymwneud ag ef y mae gan Ymddiriedolaeth GIG Felindre hawlogaeth iddynt neu y mae'n ddarostyngedig iddynt, yn cael eu trosglwyddo i AaGIC.

(3) Mae holl rwymedigaethau Ymddiriedolaeth GIG Felindre sy'n ymwneud â'r eiddo a nodir yn yr Atodlen i'w trosglwyddo, ar y dyddiad trosglwyddo, i AaGIC.

(4) Mae unrhyw hawl sy'n ymwneud â thir neu eiddo a nodir yn yr Atodlen a oedd yn orfodadwy gan Ymddiriedolaeth GIG Felindre, neu yn ei herbyn, cyn y dyddiad trosglwyddo i fod, ar neu ar ôl y dyddiad hwnnw, yn orfodadwy gan AaGIC neu yn ei erbyn.

(5) Bydd unrhyw eiddo, buddiannau, hawliau neu rwymedigaethau sydd gan Ymddiriedolaeth GIG Felindre ac eithrio'r rhai hynny a restrir yn yr Atodlen a ddefnyddir neu a ddelir gan Ymddiriedolaeth GIG Felindre, a hynny yn unig neu yn bennaf—

(a) ar gyfer cyflawni swyddogaethau GGAD; neu

(b) mewn cysylltiad â chyflawni swyddogaethau GGAD;

yn trosglwyddo i AaGIC ar y dyddiad trosglwyddo.

Trosglwyddo data, cofnodion a gwybodaeth

5. I'r graddau nad ydynt eisoes wedi eu trosglwyddo yn rhinwedd erthygl 4, mae unrhyw ddata, cofnod neu wybodaeth a ddelir gan Ymddiriedolaeth GIG Felindre yr oedd yr Ymddiriedolaeth honno, cyn y dyddiad trosglwyddo, yn eu defnyddio at ddibenion unrhyw un neu ragor o swyddogaethau AaGIC, i'w trosglwyddo i AaGIC.

Darpariaethau atodol

6.—(1) Mae unrhyw beth a wneir gan neu mewn perthynas ag Ymddiriedolaeth GIG Felindre at ddibenion yr eiddo, yr hawliau neu'r rhwymedigaethau sydd wedi eu trosglwyddo o dan y Gorchymyn hwn, neu fel arall mewn cysylltiad â hwy, i gael effaith fel pe bai wedi ei wneud mewn perthynas ag AaGIC.

Transfer of property and liabilities

4.—(1) Any property or land held by Velindre NHS Trust immediately before the transfer date which is identified in the Schedule is to transfer, on the transfer date, to HEIW.

(2) With effect from the transfer date the contents in or on the property or land identified in the Schedule and all other property, rights and liabilities and records relating thereto to which Velindre NHS Trust is entitled or subject, will be transferred to HEIW.

(3) All liabilities of Velindre NHS Trust relating to the property which is identified in the Schedule are to transfer, on the transfer date, to HEIW.

(4) Any right relating to land or property which is identified in the Schedule that was enforceable by or against Velindre NHS Trust before the transfer date is, on or after that date, to be enforceable by or against HEIW.

(5) Any property, interests, rights or liabilities of Velindre NHS Trust other than those listed in the Schedule which are used or held by Velindre NHS Trust solely or mainly—

(a) for the performance of functions of WEDS; or

(b) in connection with the performance of the functions of WEDS;

will transfer to HEIW on the transfer date.

Transfer of data, records and information

5. So far as not already transferred by virtue of article 4, any data, record or information held by Velindre NHS Trust which, before the transfer date, Velindre NHS Trust used for purposes of any of HEIW's functions, is to transfer to HEIW.

Supplementary provisions

6.—(1) Anything done by or in relation to Velindre NHS Trust for the purposes of, or otherwise in connection with the property, rights or liabilities transferred under this Order is to have effect as if done in relation to HEIW.

(2) Mae unrhyw beth (a all gynnwys achos cyfreithiol) sydd, pan fo'r Gorchymyn hwn yn cymryd effaith, wrthi'n cael ei wneud gan neu mewn perthynas ag Ymddiriedolaeth GIG Felindre mewn cysylltiad ag

(a) yr arfer gan Ymddiriedolaeth GIG Felindre mewn cysylltiad â swyddogaethau GGAD; neu

(b) unrhyw eiddo neu unrhyw un neu ragor o'r hawliau neu'r rhwymedigaethau sydd wedi eu trosglwyddo o dan y Gorchymyn hwn,

i gael effaith fel pe bai wedi ei wneud gan neu mewn perthynas ag AaGIC, a chaniateir iddo gael ei barhau gan neu mewn perthynas ag AaGIC.

(3) Mae unrhyw gyfeiriad at Ymddiriedolaeth GIG Felindre neu GGAD mewn unrhyw gytundeb (pa un a yw'n ysgrifenedig ai peidio), offeryn neu ddogfen arall mewn cysylltiad ag unrhyw eiddo, hawliau neu rwymedigaethau sydd wedi eu trosglwyddo o dan y Gorchymyn hwn, i'w drin fel pe bai'n gyfeiriad at AaGIC.

(4) Yn ddarostyngedig i erthygl 3(8), nid yw unrhyw hawl i derfynu neu i amrywio contract, trefniant neu offeryn i weithredu neu i ddod yn arferadwy, ac nid yw unrhyw ddarpariaeth mewn unrhyw gontract, trefniant neu offeryn i weithredu neu i ddod yn arferadwy neu i gael ei thorri, oherwydd unrhyw drosglwyddiad o dan y Gorchymyn hwn neu oherwydd unrhyw weithrediad arall o'r Gorchymyn hwn.

(5) Mae'r trosglwyddiadau y darperir ar eu cyfer gan y Gorchymyn hwn i'w gwneud—

(a) ni waeth a oes unrhyw ofyniad ar gyfer cydsyniad a fyddai fel arall yn gymwys (pa un a yw'n codi o dan unrhyw ddeddfiad, offeryn, cytundeb neu fel arall); a

(b) pa un a fyddent fel arall yn gallu cael eu trosglwyddo ai peidio; ac

(c) ni waeth a oes unrhyw ddarpariaeth (o ba natur bynnag) a fyddai fel arall yn atal y trosglwyddiadau hynny neu'n cyfyngu arnynt.

(2) Anything (which may include legal proceedings) which, when this Order takes effect, is in the process of being done by or in relation to Velindre NHS Trust in connection with

(a) the exercise by Velindre NHS Trust in connection with the functions of WEDS; or

(b) any of the property, rights or liabilities transferred under this Order,

is to have effect as if done by or in relation to, and may be continued by or in relation to, HEIW.

(3) Any reference to Velindre NHS Trust or WEDS in any agreement (whether written or not), instrument or other document in connection with any property, rights or liabilities transferred under this Order, is to be treated as a reference to HEIW.

(4) Subject to article 3(8), no right to terminate or vary a contract, arrangement or instrument is to operate or become exercisable, and no provision of any contract, arrangement or instrument is to operate or become exercisable or be contravened, by reason of any transfer under or other operation of this Order.

(5) The transfers provided for by this Order are to be made—

(a) irrespective of any requirement for consent that would otherwise apply (whether arising under any enactment, instrument, agreement or otherwise); and

(b) whether or nor they would otherwise be capable of being transferred; and

(c) regardless of any provision (of whatever nature) which would otherwise prevent or restrict those transfers.

Vaughan Gething

Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru
6 Medi 2018

Cabinet Secretary for Health and Social Services, one of the Welsh Ministers
6 September 2018

YR ATODLEN

Erthygl 4

Eiddo a Rhwymedigaethau sy'n Trosglwyddo i AaGIC

Les ddyddiedig 18 Mai 2018 ac a wnaed rhwng Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf (1) ac Ymddiriedolaeth GIG Felindre (2)	Lease dated 18 May 2018 and made between Rhondda Cynon Taf County Borough Council (1) and Velindre NHS Trust (2)
Cytundeb dyddiedig 1 Ebrill 2013 ac a wnaed rhwng Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru (a letyir gan Ymddiriedolaeth GIG Felindre) (1) a Phrifysgol Glyndŵr (2)	Agreement dated 1 April 2013 made between NHS Shared Services Partnership (hosted by Velindre NHS Trust) (1) and Glyndŵr University (2)
Cytundeb dyddiedig 1 Awst 2013 ac a wnaed rhwng Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru (a letyir gan Ymddiriedolaeth GIG Felindre) (1) ac Ysgol Nyrsio a Bydwreigiaeth Prifysgol Caerdydd (2)	Agreement dated 1 August 2013 and made between NHS Wales Shared Services Partnership (hosted by Velindre NHS Trust) (1) and Cardiff University School of Nursing & Midwifery (2)
Cytundeb dyddiedig 1 Awst 2013 ac a wnaed rhwng Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru (a letyir gan Ymddiriedolaeth GIG Felindre) (1) a Choleg Gwyddorau Dynol ac Iechyd Prifysgol Abertawe (2)	Agreement dated 1 August 2013 and made between NHS Wales Shared Services Partnership (hosted by Velindre NHS Trust) (1) and Swansea University College of Human & Health Sciences (2)
Cytundeb dyddiedig 1 Awst 2013 ac a wnaed rhwng Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru (a letyir gan Ymddiriedolaeth GIG Felindre) (1) a Phrifysgol De Cymru (2)	Agreement dated 1 August 2013 and made between NHS Wales Shared Services Partnership (hosted by Velindre NHS Trust) (1) and University of South Wales (2)
Cytundeb dyddiedig 1 Awst 2013 ac a wnaed rhwng Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru (a letyir gan Ymddiriedolaeth GIG Felindre) (1) ac Ysgol Gwyddorau Gofal Iechyd Prifysgol Bangor (2)	Agreement dated 1 August 2013 and made between NHS Wales Shared Services Partnership (hosted by Velindre NHS Trust) (1) and Bangor University School of Health Care Sciences (2)
Cytundeb dyddiedig 1 Awst 2013 ac a wnaed rhwng Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru (a letyir gan Ymddiriedolaeth GIG Felindre) (1) a Phrifysgol Metropolitan Caerdydd (2)	Agreement dated 1 August 2013 and made between NHS Wales Shared Services Partnership (hosted by Velindre NHS Trust) (1) and Cardiff Metropolitan University (2)
Contract dyddiedig 21 Gorffennaf 2017 ac a wnaed rhwng Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru (Gwasanaethau Caffael) (1) a Phrifysgol Gorllewin Lloegr, Bryste (2)	Contract dated 21 July 2017 and made between NHS Wales Shared Services Partnership (Procurement Services) (1) and University of the West of England, Bristol (2)
Contract dyddiedig 11 Ionawr 2018 ac a wnaed rhwng Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru (Gwasanaethau Caffael) (1) a'r Brifysgol Agored (2)	Contract dated 11 January 2018 and made between NHS Wales Shared Services Partnership (Procurement Services) (1) and The Open University (2)

©℗Hawlfraint y Goron 2018

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Jeff James, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

SCHEDULE

Article 4

Property and Liabilities Transferring to HEIW

© Crown copyright 2018

Printed and published in the UK by The Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Jeff James, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

2018 Rhif 981 (Cy. 201)

Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

Gorchymyn Addysg a Gwella Iechyd Cymru (Trosglwyddo Staff, Eiddo, Rhwymedigaethau) (Cymru) 2018

2018 No. 981 (W. 201)

NATIONAL HEALTH SERVICE, WALES

The Health Education and Improvement Wales (Transfer of Staff, Property, Liabilities) (Wales) Order 2018

£6.90

W201809061004 09/2018

http://www.legislation.gov.uk/id/wsi/2018/981

ISBN 978-0-348-20273-1

9 780348 202731